Senedd Cymru
**Pwyllgor Busnes**

# Gwaith gweithdrefnol y Chweched Senedd: Blaenoriaethau

Yn unol â Rheol Sefydlog 11.7(iv), y Pwyllgor Busnes sy'n gyfrifol am wneud argymhellion ar arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Senedd, gan gynnwys unrhyw gynigion ar gyfer ailwneud y Rheolau Sefydlog neu eu diwygio.

Bydd gweithredu Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 yn cynyddu nifer yr Aelodau i 96, yn newid y ffordd y mae'r Aelodau'n cael eu hethol, ac yn gwneud nifer o newidiadau eraill i fframwaith statudol y Senedd.

Mae'r Pwyllgor Busnes yn adolygu amrywiaeth o faterion gyda'r bwriad o sicrhau bod fframwaith gweithdrefnol y Senedd yn adlewyrchu'r newidiadau statudol hyn, ac yn darparu sail gadarn ar gyfer gweithrediad y Senedd i'w hethol yn 2026.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r materion sydd wedi cael blaenoriaeth i'w hystyried cyn diwedd y Chweched Senedd yng ngwanwyn 2026.

# 1. Cefndir

**1.** Cylch gwaith y Pwyllgor Busnes yw hwyluso trefniadaeth effeithiol trafodion y Senedd. Nodir ei swyddogaethau yn Rheol Sefydlog 11.7, ac mae'n cynnwys gwneud argymhellion ar arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Senedd wrth gynnal ei fusnes (gan gynnwys unrhyw gynigion ar gyfer ailwneud y Rheolau Sefydlog, neu unrhyw ran ohonynt, neu eu diwygio).

**2.** Er mwyn cefnogi'r broses o gyflawni'r swyddogaeth hon, mae'r Pwyllgor Busnes yn cynnal rhaglen waith dreigl o faterion gweithdrefnol a nodwyd fel rhai a allai fod angen eu hadolygu neu eu hystyried. Gall hyn gynnwys materion a godwyd gan bwyllgorau'r Senedd, Llywodraeth Cymru, Aelodau unigol o'r Senedd neu eraill.

**3.** Mae Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 ("Deddf 2024") yn darparu y bydd gan y Senedd a etholir ym mis Mai 2026, 96 o Aelodau, a etholir drwy system cynrychiolaeth gyfrannol â rhestrau caeedig i gynrychioli 16 o etholaethau. Mae Deddf 2024 hefyd yn gwneud newidiadau eraill i fframwaith statudol y Senedd, gan gynnwys darpariaeth sy'n galluogi ethol Dirprwy Lywydd ychwanegol a lleihau cyfnod Senedd o bum mlynedd i bedair.

**4.** Felly, mae rhaglen waith weithdrefnol y Pwyllgor Busnes yn cynnwys ystyried materion sy'n codi o Ddeddf 2024, gyda'r bwriad o sicrhau bod fframwaith gweithdrefnol y Senedd yn adlewyrchu'r newidiadau statudol ac yn darparu sail gadarn ar gyfer gweithrediad y Senedd i'w hethol yn 2026.

# 2. Dull o flaenoriaethu

**5.** Ym mis Mehefin 2025, adolygodd y Pwyllgor Busnes ei raglen waith dreigl, gan ystyried ffactorau fel:

- A oes rhaid cwblhau ystyriaeth o fater cyn yr etholiad cyntaf lle mae 96 o Aelodau'n cael eu hethol.
- A fyddai mater yn cael ei ystyried yn fwy priodol gan y Senedd nesaf.
- A yw deddfwriaeth heblaw Deddf 2024 yn ei gwneud yn ofynnol ystyried newidiadau gweithdrefnol.

- A oes gan ystyriaeth o fater gyfle realistig o ddatrys mater cydnabyddedig (er enghraifft ar sail yr amser sy'n weddill cyn diwedd y Senedd, neu'r tebygolrwydd o gyrraedd cytundeb trawsbleidiol).
- I ba raddau yr oedd ystyriaeth gan y Pwyllgor Busnes neu waith paratoadol cysylltiedig ar y mater eisoes wedi dechrau.

**6.** Yn y modd hwn, nododd y Pwyllgor Busnes dri categori:

- Materion i'w hystyried yn ystod y Chweched Senedd.
- Materion y mae angen ymchwilio ymhellach iddynt cyn y gellir gwneud penderfyniad o ran blaenoriaethu.
- Materion i'w hamlygu i'w hystyried yn ystod y Seithfed Senedd.

**7.** Mae gweddill yr adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'r materion ym mhob categori.

# 3. Materion a nodwyd i'w hystyried yn ystod y Chweched Senedd

## Gweithredu darpariaeth sy'n galluogi ethol Dirprwy Lywydd ychwanegol

### Cefndir

**8.** Mae Deddf 2024 yn galluogi, ond nid yw'n ei gwneud yn ofynnol, ethol Dirprwy Lywydd ychwanegol. Byddai angen gwneud newidiadau i'r Rheolau Sefydlog er mwyn galluogi'r Senedd i ddefnyddio'r ddarpariaeth alluogi. Mae materion i'w hystyried yn cynnwys, er enghraifft, sut y byddai penderfyniad o'r fath yn cael ei wneud, a sut y cynhelir y broses o ethol Dirprwy Lywydd ychwanegol.

**9.** Mater cysylltiedig a godwyd gyntaf gan y Pwyllgor Diben Arbennig ar Ddiwygio'r Senedd ("y Pwyllgor Diben Arbennig") yn 2022, ac wedi hynny wedi'i ystyried gan y Pwyllgor Busnes a'r Pwyllgor Biliau Diwygio, yw'r teitlau y mae'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd i gael eu hadnabod wrthynt.

### Rheswm dros benderfyniad y Pwyllgor Busnes

**10.** Oni bai bod darpariaeth alluogi wedi'i chynnwys yn y Rheolau Sefydlog cyn diwedd y Chweched Senedd, byddai oedi cyn y gallai'r Senedd nesaf ddefnyddio'r hyblygrwydd a gynigir gan Ddeddf 2024 (os yw'n dymuno gwneud hynny).

## Gweithredu darpariaeth ynghylch craffu ar is-ddeddfwriaeth yn Neddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025

### Cefndir

**11.** Mae Deddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025 (“Deddf 2025”) yn dwyn ynghyd mewn un lle, ac yn dynodi labeli newydd i, y prif weithdrefnau craffu sy'n berthnasol i wneud is-ddeddfwriaeth gan Weinidogion Cymru. Felly, mae angen newidiadau i'r Rheolau Sefydlog i adlewyrchu'r newidiadau statudol.

### Rheswm dros benderfyniad y Pwyllgor Busnes

**12.** Oni bai bod newidiadau i'r Rheolau Sefydlog yn cael eu gwneud cyn i'r darpariaethau perthnasol yn Neddf 2025 ddod i rym, bydd ansicrwydd ynghylch y gweithdrefnau ar gyfer craffu ar is-ddeddfwriaeth.

## Busnes seneddol yn y Seithfed Senedd

### Cefndir

**13.** Cafodd Pwyllgor Senedd y Dyfodol y dasg o ystyried ac adrodd ar faterion yn ymwneud â threfniadaeth busnes yn y Seithfed Senedd. Roedd hyn yn cynnwys materion megis nifer, amserlen a busnes y Cyfarfod Llawn, a strwythur y system bwyllgorau ac amserlennu cyfarfodydd pwyllgor.

**14.** Mae Fforwm y Cadeiryddion wrthi’n adolygu materion sy'n ymwneud â gweithrediad ac effeithiolrwydd pwyllgorau yn y Chweched Senedd.

### Rheswm dros benderfyniad y Pwyllgor Busnes

**15.** Er mwyn cynorthwyo amserlennu a gweithrediad llyfn busnes cynnar yn y Seithfed Senedd, mae'r Pwyllgor Busnes yn bwriadu myfyrio ac adeiladu ar

adroddiad Pwyllgor Senedd y Dyfodol ac unrhyw gasgliadau y daeth Fforwm y Cadeiryddion iddynt.

## Gweithdrefnau sy'n ymwneud â Biliau Aelodau

### Cefndir

**16.** Mae Rheol Sefydlog 26 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Llywydd gynnal pleidlais, o bryd i'w gilydd, i ddewis enw Aelod a all ofyn am ganiatâd y Senedd i gyflwyno Bil i roi effaith i amcanion polisi arfaethedig. Yna gall yr Aelodau sy'n cael caniatâd i fwrw ymlaen gyflwyno Bil o fewn 13 mis. Mae Biliau o'r fath yn ddarostyngedig i'r un weithdrefn graffu â Biliau eraill a gyflwynir o dan Reol Sefydlog 26.

**17.** Adolygwyd y gweithdrefnau ynghylch y broses Biliau Aelod yn sylweddol ddiwethaf yn 2016. Codwyd materion ynghylch sut mae'r Aelodau'n cael eu dewis i gyflwyno Biliau gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn gohebiaeth yn 2022 a 2023 ac adroddiadau yn 2022 a 2023. Gall disgwyliadau'r Aelodau ynghylch Biliau Aelod gael eu heffeithio hefyd gan y cynnydd ym maint y Senedd.

### Rheswm dros benderfyniad y Pwyllgor Busnes

**18.** Ymgynghorodd y Pwyllgor Busnes ar adolygiad o'r weithdrefn Biliau Aelod yng ngwanwyn 2025. Oni bai bod unrhyw newidiadau gweithdrefnol yn cael eu gwneud cyn diwedd y Chweched Senedd, gallai fod oedi wrth hwyluso gweithrediad y weithdrefn Biliau Aelod yn y Seithfed Senedd, gyda goblygiadau posibl i nifer y Biliau Aelod y gellir eu datblygu, eu cyflwyno a'u craffu o fewn tymor pedair blynedd.

## Gweithdrefnau sy'n ymwneud â chraffu ar Filiau a gyflwynir yn unol â Rheol Sefydlog 26

### Cefndir

**19.** Cyflwynir y rhan fwyaf o Filiau a gyflwynir i'r Senedd yn unol â Rheol Sefydlog 26. Adolygwyd Rheol Sefydlog 26 yn sylweddol ddiwethaf yn 2016. Mae materion ynghylch y weithdrefn graffu ddeddfwriaethol yn Rheol Sefydlog 26—megis materion yn ymwneud â dyrannu amser i bwyllgorau adrodd yn ystod Cyfnod 1—wedi'u codi ar nifer o achlysuron yn ystod y Chweched Senedd gan bwyllgorau'r Senedd a Llywodraeth Cymru.

### Rheswm dros benderfyniad y Pwyllgor Busnes

**20.** Ymgynghorodd y Pwyllgor Busnes ar adolygiad o'r weithdrefn craffu ar Filiau Cyhoeddus yng ngwanwyn 2025. Mae profiad yr Aelodau, y pwyllgorau a Llywodraeth Cymru yn ystod y Chweched Senedd yn allweddol i asesu goblygiadau unrhyw newidiadau gweithdrefnol a allai gael eu cynnig. At hynny, efallai y bydd cyfleoedd i gyflwyno neu dreialu diwygiadau gweithdrefnol posibl yn y Chweched Senedd.

## Darpariaeth i dreialu'r broses o ethol neu benodi rolau cadeiryddion pwyllgor ar sail rhannu swyddi

### Cefndir

**21.** Yn 2022 argymhellod y Pwyllgor Diben Arbennig y dylai'r Pwyllgor Busnes ystyried y materion ymarferol a gweithdrefnol sy'n gysylltiedig â dau Aelod yn rhannu rôl cadeirydd pwyllgor. Cyhoeddodd y Pwyllgor Busnes alwad am dystiolaeth ar egwyddor rhannu swyddi ar gyfer cadeiryddion pwyllgorau yn haf 2024, ac yna ail gam o ymgynghoriad wedi'i dargedu ar gynigion penodol yn hydref 2024.

### Rheswm dros benderfyniad y Pwyllgor Busnes

**22.** Mae gwaith sylweddol eisoes wedi'i wneud i ddatblygu cynigion i alluogi treialu'r broses o ethol neu benodi cadeiryddion pwyllgorau ar sail rhannu swyddi. At hynny, oni bai bod unrhyw newidiadau gweithdrefnol yn cael eu gwneud cyn diwedd y Chweched Senedd, mae'n annhebygol y byddai darpariaeth alluogi ar waith cyn ethol mwyafrif cadeiryddion y pwyllgorau yn gynnar yn y Seithfed Senedd.

## Argymhellion y Pwyllgor Safonau Ymddygiad o ran datgan a chofrestru buddiannau'r Aelodau

### Cefndir

**23.** Mae'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn ystyried trefniadau'r Senedd ar gyfer cofrestru a datgan buddiannau, gyda'r nod o sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas at y diben ar draws pob agwedd ar fusnes y Senedd.

### Rheswm dros benderfyniad y Pwyllgor Busnes

**24.** Mae cofrestru a datgan buddiannau'r Aelodau yn gonglfaen pwysig i gyfundrefn safonau'r Senedd. Os bydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn argymell newidiadau gweithdrefnol, yna bydd yn helpu i osgoi unrhyw ddryswch neu ansicrwydd, a sicrhau bod y Seithfed Senedd yn dechrau ar sail gadarn, os gwneir unrhyw newidiadau cyn dechrau'r Seithfed Senedd.

## Adolygiad o'r Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud ag Aelodau 'etholaethol' ac Aelodau 'rhanbarthol'

### Cefndir

**25.** Mae Deddf 2024 yn cyflwyno system cynrychiolaeth gyfrannol â rhestrau caeedig fel y dull o ethol pob Aelod, gan ddisodli'r system bresennol lle mae rhai Aelodau'n cael eu hethol i gynrychioli etholaethau ac eraill i gynrychioli rhanbarthau.

### Rheswm dros benderfyniad y Pwyllgor Busnes

**26.** Mae angen adolygu'r nifer fach o ddarpariaethau yn y Rheolau Sefydlog sy'n cyfeirio at Aelodau etholaethol a rhanbarthol er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau'r Senedd yn adlewyrchu'r fframwaith statudol newydd.

## 'Trothwyon' Rheolau Sefydlog

### Cefndir

**27.** Drwy gydol y Rheolau Sefydlog mae darpariaeth sy'n nodi nifer yr Aelodau sydd eu hangen at ddibenion penodol (er enghraifft, nifer yr Aelodau sydd eu hangen i ffurfio grŵp gwleidyddol, neu bwy y mae'n rhaid iddo fod yn bresennol er mwyn i gyfarfod pwyllgor fod yn gwneud cworwm). Gan y bydd Deddf 2024 yn cynyddu cyfanswm nifer Aelodau o'r Senedd, cafodd Pwyllgor Senedd y Dyfodol y dasg o adolygu a fyddai'r 'trothwyon' presennol yn parhau i fod yn briodol mewn Senedd fwy.

### Rheswm dros benderfyniad y Pwyllgor Busnes

**28.** Mae Pwyllgor Senedd y Dyfodol wedi gwneud argymhellion ynghylch trothwyon Rheol Sefydlog. Mae rhai o'r trothwyon yn sail i rannau allweddol o strwythurau a gweithrediad y Senedd—er enghraifft mae cysylltiad rhwng gallu'r Aelodau i ffurfio grwpiau gwleidyddol a chymhwysedd yr Aelodau i gael eu

hethol yn Llywydd neu'n Ddirprwy Lywydd. Mae dyrannu cadeiryddion ac aelodau pwyllgorau hefyd yn gysylltiedig ag aelodaeth o grwpiau gwleidyddol. Felly, byddai'n cyfyngu ar unrhyw darfu posibl ar strwythurau a gweithrediad y Seithfed Senedd pe bai unrhyw newidiadau gweithdrefnol yn cael eu gwneud cyn diwedd y Chweched Senedd.

# 4. Materion y mae angen ymchwilio ymhellach iddynt cyn y gellir gwneud penderfyniad

## Adolygiad y Pwyllgor Cyllid o weithdrefnau cyllidebol

### Cefndir

**29.** Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi bod yn adolygu'r broses gyllidebol a'r gweithdrefnau cyllidebol atodol fel y maent yn ymwneud â Chyrff a Ariennir yn Uniongyrchol.

### Rheswm dros benderfyniad y Pwyllgor Busnes

**30.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ymgynghori â'r Pwyllgor Cyllid ynghylch yr amserlenni ar gyfer ei waith, ac a yw'n rhagweld y bydd ei gasgliadau'n golygu bod angen gwneud unrhyw waith adolygu gweithdrefnol cyn diwedd y Chweched Senedd.

# 5. Materion i'w hamlygu i'w hystyried yn ystod y Seithfed Senedd

## Atebolrwydd Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

### Cefndir

**31.** Yn sgil Deddf 2024, cafodd Comisiwn Democratiaeth Leol a Ffiniau Cymru ei ailenwi'n Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, a chafodd y cyfrifoldeb dros adolygiadau a threfniadau ffiniau etholiadol y Senedd.

**32.** Yn ei adroddiad Cyfnod 1 ym mis Ionawr 2024 ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) ar y pryd, trafododd y Pwyllgor Biliau Diwygio sut y gallai trefniadau atebolrwydd ar gyfer y Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru gydbwyso annibyniaeth angenrheidiol y Comisiwn â sicrwydd priodol ynghylch

ei lywodraethu a'i weithrediad, a thryloywder ynghylch sut mae deiliaid swyddi allweddol yn cael eu penodi. Argymhellodd y canlynol:

> *"Argymhelliad 25: Fel rhan o'i adolygiad gweithdrefnol cyn etholiad 2026, dylai'r Pwyllgor Busnes ystyried modelau priodol o atebolrwydd ar gyfer Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru o ran ei swyddogaethau mewn perthynas â ffiniau etholaethau'r Senedd, gan gynnwys y defnydd posibl o Bwyllgor y Llywydd. Dylai'r model atebolrwydd a roddir ar waith gynnwys yr opsiwn i un o bwyllgorau perthnasol y Senedd, os yw'n dymuno gwneud hynny, gynnal gwrandawiad cyn penodi fel rhan o'r prosesau ar gyfer penodi cadeirydd a phrif weithredwr Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru.*

### Rheswm dros benderfyniad y Pwyllgor Busnes

**33.** Daeth y Pwyllgor Busnes i'r casgliad na ellid cwblhau adolygiad o'r raddfa a'r cymhlethdod sydd ei angen cyn diwedd y Chweched Senedd. Byddai angen i adolygiad o'r fath, er enghraifft, ystyried y math o atebolrwydd sy'n briodol ar gyfer corff y mae'n rhaid iddo fod yn rhydd rhag dylanwad gwleidyddol. At hynny, pe bai swyddogaethau o'r fath yn cael eu dirprwyo i Bwyllgor y Llywydd, mae'n bosibl y byddai angen deddfwriaeth sylfaenol. Efallai y bydd angen ystyried agwedd gwrandawiadau cyn-benodi yr argymhelliad hefyd yng nghyd-destun unrhyw waith ehangach a wneir mewn perthynas â phenodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru (gweler paragraffau 61 i 64).

## Codeiddio cyfraith Cymru

### Cefndir

**34.** Mae dogfen bolisi ar ddyfodol rhaglen hygyrchedd ddiwygiedig cyfraith Cymru Llywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2024 yn disgrifio codeiddio fel a ganlyn:

> *"Yn ymarferol, mae codeiddio yn golygu cyhoeddi'r gyfraith ar bynciau penodol gyda'i gilydd mewn un lle a chymryd camau i ddiogelu strwythur y ddeddfwriaeth ar bwnc penodol unwaith y bydd wedi'i rhoi mewn trefn. Felly, os oes gennym un Ddeddf ar bwnc penodol, naill ai am ei bod wedi'i chydgrynhoi neu am fod y gyfraith yn y maes hwnnw wedi'i diwygio drwyddi draw, dylem barhau i fod ag un Ddeddf.* Os oes bwriad i newid y

gyfraith ar y pwnc, dylid gwneud y newid hwnnw drwy ddiwygio'r Ddeddf honno, nid drwy wneud un newydd ochr yn ochr â hi, oni bai bod rheswm da iawn dros beidio â gwneud hynny."

**35.** Mae'n nodi ymhellach, drwy gydgrynhoi cyfraith gynllunio, fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu creu cod o gyfraith Cymru sy'n ymwneud â chynllunio. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2025 y byddai dau Fil Cydgrynhoi yn cael eu cyflwyno ym mlwyddyn olaf y Chweched Senedd at y diben hwn.

### Rheswm dros benderfyniad y Pwyllgor Busnes

**36.** Hyd yma, nid oes unrhyw godau cyfraith Cymru wedi'u sefydlu. Felly mae'n rhy gynnar i ystyried a oes angen unrhyw ddiwygiadau gweithdrefnol penodol.

## Biliau 'cytras'

### Cefndir

**37.** Biliau 'cytras' yw Biliau sy'n wahanol, ond sy'n gysylltiedig yn agos â'i gilydd, a'u bwriad yw symud ymlaen drwy brosesau craffu deddfwrfa mewn ffordd gydgysylltiedig.

**38.** Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno dau Fil Cydgrynhoi cytras yn hydref 2025 at ddibenion cydgrynhoi cyfraith gynllunio.

### Rheswm dros benderfyniad y Pwyllgor Busnes

**39.** Hyd yma, nid oes unrhyw Filiau cytras wedi'u cyflwyno, ac nid oes unrhyw rwystrau gweithdrefnol penodol wedi'u nodi.

**40.** Wrth baratoi ar gyfer cyflwyno'r Biliau Cydgrynhoi cynllunio cytras a ddisgwylir yn hydref 2025, mae'r Pwyllgor Busnes yn ystyried y goblygiadau ymarferol ar gyfer craffu yn y ffordd arferol h.y. yr amserlen ar gyfer camau heblaw'r rhai a gymerir yn y Cyfarfod Llawn. Os bydd unrhyw rwystrau gweithdrefnol penodol yn codi, byddant yn cael eu hystyried yn unol â hynny.

## Biliau Cydgrynhoi

### Cefndir

**41.** Mae Biliau Cydgrynhoi yn Filiau a gyflwynir gan aelod o lywodraeth at ddibenion cydgrynhoi deddfwriaeth sylfaenol bresennol, is-ddeddfwriaeth a'r

gyfraith gyffredin. Mae Biliau o’r fath yn pasio drwy weithdrefnau craffu gwahanol i’r rhai sy’n gymwys i’r rhan fwyaf o Filiau. Hyd yma, dim ond un Bil Cydgrynhoi y mae'r Senedd wedi’i ystyried (Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)).

**42.** Yn ei adroddiad Ystyriaeth Gychwynnol ar y Bil hwnnw, argymhellodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y dylid cynnal adolygiad llawn o Reol Sefydlog 26C ar ôl i'r Senedd ystyried ail Fil Cydgrynhoi. Fodd bynnag, ym mis Medi 2023 ysgrifennodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad at y Pwyllgor Busnes i dynnu sylw at faterion penodol a oedd yn haeddu ystyriaeth gynharach. Wedi hynny, ym mis Ionawr 2024, adroddodd y Pwyllgor Busnes ar adolygiad cyfyngedig o weithdrefnau'r Bil Cydgrynhoi.

### Rheswm dros benderfyniad y Pwyllgor Busnes

**43.** Disgwylir i'r Biliau disgwyliedig i gydgrynhoi cyfraith gynllunio gael eu cyflwyno yn hydref 2025, ac felly mae'n annhebygol y byddant yn cwblhau eu taith drwy'r Senedd gyda digon o amser ar ôl i alluogi cynnal adolygiad gweithdrefnol cyn diwedd y Chweched Senedd.

## Deddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025: Argymhellion y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

### Cefndir

**44.** Yn ei Adroddiad Cyfnod 1 ym mis Chwefror 2025 ar y Bil Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) bryd hynny, argymhellodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad y dylai'r Pwyllgor Busnes ystyried:

- A ddylai pwyllgor didoli ystyried unrhyw is-ddeddfwriaeth a osodwyd i benderfynu ar y lefel briodol o graffu.
- Cynnig cyflwyno gweithdrefn i ganiatáu cynigion 'meddwl eto' y gellir eu diwygio i offerynnau statudol.

### Rheswm dros benderfyniad y Pwyllgor Busnes

**45.** Byddai'r gwaith sydd ei angen i gyflawni'r argymhellion hyn yn sylweddol, ac mae'n annhebygol y bydd digon o amser i hyn gael ei gwblhau cyn diwedd y Chweched Senedd.

## Y broses cydsyniad deddfwriaethol

### Cefndir

**46.** Mae gwahanol agweddau ar weithdrefnau'r Senedd ynghylch y broses gydsyniad deddfwriaethol, a gweithrediad ehangach y broses honno, wedi cael eu codi gan yr Aelodau, Llywodraeth Cymru a phwyllgorau'r Senedd ar nifer o achlysuron.

**47.** Yn fwyaf diweddar, arweiniodd adolygiad â ffocws gan y Pwyllgor Busnes at newidiadau i Reol Sefydlog 29.1 i egluro darpariaethau Bil y DU sy'n gofyn am femorandwm cydsyniad deddfwriaethol, a darpariaethau'r Bil y gofynnir i'r Senedd gydsynio â hwy (neu beidio) wrth ystyried cynnig cysylltiedig. Ym mis Hydref 2024, cytunodd y Pwyllgor Busnes i oedi unrhyw waith pellach hyd nes bod y newid hwn a'r berthynas â Llywodraeth newydd y DU wedi cael amser i ymsefydlu.

### Rhesymau dros benderfyniad y Pwyllgor Busnes

**48.** Dim ond un elfen o'r broses gydsyniad deddfwriaethol ehangach yw gweithdrefnau'r Senedd. Byddai angen newid cyfansoddiadol ar lefel y DU a chonsensws gwleidyddol eang i fynd i'r afael ag elfennau eraill; efallai na fyddai modd gwneud newidiadau sylweddol yn yr amser sy'n weddill yn y Chweched Senedd.

## Cwotâu amrywiaeth deddfwriaethol ar gyfer nodweddion heblaw rhywedd

### Cefndir

**49.** Yn 2022, argymhellodd y Pwyllgor Diben Arbennig:

> *"Argymhelliad 11. Rydym yn argymell y dylid ethol y Senedd gyda chwotâu rhywedd statudol integredig.*
>
> *[...]*
>
> *Argymhelliad 15. Rydym yn argymell bod pwyllgor perthnasol yn ystyried sut y gellir gwneud rhagor o waith i ystyried rhinweddau a goblygiadau cwotâu amrywiaeth deddfwriaethol ar gyfer nodweddion ar wahân i rywedd. Rydym yn rhagweld y bydd yr ystyriaeth hon yn llywio*

*penderfyniadau ynghylch a fydd cwotâu o'r fath, mewn amser, yn fecanwaith effeithiol ar gyfer annog ethol Senedd fwy amrywiol, ar amser priodol yn y dyfodol."*

**50.** Cyflwynodd Llywodraeth Cymru Fil Senedd Cymru (Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol) ym mis Mawrth 2024. Gwnaeth yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil ddatganiad y byddai darpariaethau'r Bil, yn ei barn hi, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Gwnaeth y Llywydd ddatganiad na fyddai darpariaethau'r Bil, yn ei barn hi, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**51.** Ym mis Medi 2024, cyhoeddodd yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil ddatganiad ysgrifenedig gan nodi ei bwriad i geisio cytundeb y Senedd i dynnu'r Bil yn ôl. Roedd y datganiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cymru i gyhoeddi canllawiau amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer pleidiau gwleidyddol yn unol â'r ddarpariaeth yn Neddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024. Wedi hynny, cytunodd y Senedd i'r broses o dynnu'n ôl.

**52.** Cyhoeddwyd canllawiau ar amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer pleidiau gwleidyddol cofrestredig Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2025.

### Rheswm dros benderfyniad y Pwyllgor Busnes

**53.** Nid oes digon o amser ar ôl yn y Chweched Senedd i'r Pwyllgor Busnes na phwyllgor arall yn y Senedd ymgymryd â'r gwaith datblygu polisi a fyddai'n ofynnol i roi effaith i argymhelliad 15 y Pwyllgor Diben Arbennig. Gellir dadlau bod pleidiau gwleidyddol a Llywodraeth Cymru mewn gwell sefyllfa i ddatblygu polisi mewn perthynas â hyn, yn hytrach na defnyddio capasiti craffu cyfyngedig pwyllgorau'r Senedd i ymgymryd â gwaith datblygu polisi. At hynny, mae ansicrwydd yn parhau ynghylch cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd mewn perthynas â chwotâu amrywiaeth.

## Diwygiadau gweithdrefnol ar ôl Brexit (yn ymwneud â fframweithiau cyffredin ledled y DU a Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020)

### Cefndir

**54.** Ar ôl ystyried argymhellion a wnaed gan bwyllgorau'r Senedd, yn 2023 ymgynghorodd y Pwyllgor Busnes â phwyllgorau'r Senedd, Fforwm y Cadeiryddion a Llywodraeth Cymru ar gynigion posibl i hwyluso gwaith craffu ar effaith ymarferol Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 a fframweithiau polisi

cyffredin ledled y DU ar ddeddfwriaeth a gyflwynir yn y Senedd, a seneddau eraill y DU.

**55.** Mae Llywodraeth y DU wrthi'n adolygu Deddf Marchnad Fewnol y DU a'r fframweithiau cyffredin.

### Rheswm dros benderfyniad y Pwyllgor Busnes

**56.** Ym mis Chwefror 2025, cytunodd y Pwyllgor Busnes i ohirio ystyriaeth bellach o'r materion hyn tan ar ôl adolygiad Llywodraeth y DU, gan y bydd angen ystyried canlyniad yr adolygiad hwn cyn y gellir cwblhau unrhyw gynigion. Mae'n annhebygol y bydd adolygiad Llywodraeth y DU wedi'i gwblhau mewn digon o amser i alluogi'r Pwyllgor Busnes i gwblhau ei ystyriaeth o'r materion hyn cyn diwedd y Chweched Senedd. Gellir codi rhai agweddau ar y cynigion sy'n ymwneud â memoranda esboniadol ar gyfer Biliau'r Senedd fel rhan o'r gwaith ar weithdrefnau sy'n ymwneud â chraffu ar Filiau.

## Cynrychiolaeth y Senedd ar gyrff rhyngseneddol

### Cefndir

**57.** Mae gan y Senedd gynrychiolaeth ffurfiol neu anffurfiol ar nifer o gyrff rhyngseneddol, gan gynnwys aelodaeth o'r Fforwm Rhyngseneddol a gwahoddiad i anfon arsylwyr anffurfiol i'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol rhwng y DU a'r UE. Nid oes proses ffurfiol ar gyfer penodi cynrychiolwyr o'r fath.

**58.** Cytunodd Fforwm y Cadeiryddion ym mis Ionawr 2025 i enwebu cadeiryddion y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith yn aelodau o'r Fforwm Rhyngseneddol, a chadeiryddion Pwyllgor yr Economi, Trafnidiaeth a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol yn arsylwyr i'r Cynulliad Partneriaeth Seneddol.

**59.** Yn dilyn sylwadau gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, cytunodd y Llywydd y dylid ystyried sut y pennir cynrychiolaeth y Senedd ar gyrff rhyngseneddol.

### Rheswm dros benderfyniad y Pwyllgor Busnes

**60.** Daeth y Pwyllgor Busnes i'r casgliad bod angen i'r Llywydd ystyried y mater hwn yn y lle cyntaf. Er y gallai fod angen adolygiad pellach gan y Pwyllgor Busnes wedyn, mae'n annhebygol y bydd digon o amser i hyn gael ei gwblhau cyn

diwedd y Chweched Senedd. At hynny, mae'n annhebygol y bydd angen penderfyniadau pellach ynghylch cynrychiolaeth y Senedd ar gyrff rhyngseneddol cyn diwedd y Chweched Senedd.

## Rôl Llywodraeth Cymru ym mhenodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru

### Cefndir

**61.** Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am wneud penodiadau cyhoeddus i ystod o benodiadau ar draws pob agwedd ar fywyd cyhoeddus. Rhaid gwneud penodiadau rheoleiddiedig yn unol â'r Cod Llywodraethu ar Benodiadau Cyhoeddus, a darperir sicrwydd annibynnol bod penodiadau'n cydymffurfio â'r Cod gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus.

**62.** Ers 2019, mae cytundeb wedi bod ar waith rhwng y Senedd a Llywodraeth Cymru y gall pwyllgorau'r Senedd ddewis cynnal gwrandawiadau cyn-benodi gyda'r ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer rhai penodiadau cyhoeddus, fel y rhai sydd ag effaith sylweddol ar y cyhoedd. Mae yna hefyd enghreifftiau o aelodau/cadeiryddion pwyllgorau yn cael eu gwahodd gan Lywodraeth Cymru i gymryd rhan mewn agweddau eraill ar y broses recriwtio.

**63.** Ym mis Mawrth 2025, adroddodd y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Chyfrifon Cyhoeddus ar ei ymchwiliad i benodiadau cyhoeddus. Argymhellodd y canlynol:

> *“Argymhelliad 20: Rydym yn argymell bod Pwyllgor Busnes y Senedd yn ystyried a ddylai’r protocol presennol gael ei adolygu, ei ddiweddaru a’i godeiddio yn y Rheolau Sefydlog, fel y cytunodd y Llywydd a Mark Drakeford, y Prif Weinidog ar y pryd. Credwn y dylai corff priodol o fewn y Senedd gael rhywfaint o oruchwyliaeth dros y trefniadau ad hoc sy’n amrywio o benodiad i benodiad o ran ymwneud Pwyllgorau â phenodiadau cyhoeddus a arweinir gan Lywodraeth Cymru a chynrychiolaeth aelodau’r Pwyllgor ar baneli penodiadau a arweinir gan Lywodraeth Cymru.”*

### Rheswm dros benderfyniad y Pwyllgor Busnes

**64.** Daeth y Pwyllgor Busnes i’r casgliad bod angen i’r Llywydd ystyried y mater hwn yn y lle cyntaf. Er y gallai fod angen adolygiad pellach gan y Pwyllgor Busnes

wedyn, mae'n annhebygol y bydd digon o amser i hyn gael ei gwblhau cyn diwedd y Chweched Senedd.